| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **Teitl yr Adroddiad** | Adroddiad Blynyddol Addysg 2022-23 |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 23 Ionawr 2024 |
| **Awdur** | Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg |
| **Aelod Cabinet Perthnasol** | Cynghorydd Beca Brown |

**1. CEFNDIR**

1.1 Yn unol â dymuniad y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, cyflwynir Adroddiad Blynyddol yr Adran Addysg ar gyfer 2022-23 gerbron y pwyllgor.

1.2 Mae’r Adran Addysg yn cydnabod nad tasg hawdd yw sicrhau craffu effeithiol ar ddogfen sydd yn crynhoi blwyddyn o waith yr Adran Addysg ar lawr pwyllgor. O ganlyniad, yn yr adroddiad ceisir tynnu sylw at brif brosiectau blaenoriaeth yr Adran, gwaith arferol dydd i ddydd yr Adran, nodweddion cadarnhaol, heriau, ynghyd â meysydd sydd angen sylw dros y cyfnod nesaf. Gwelir yr Adroddiad Blynyddol yn Atodiad 1.

1.3 At hyn, bydd GwE yn manylu ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni ganddynt hwy ym maes gwella ysgolion er sicrhau trosolwg gyflawn o’r maes i’r pwyllgor ar gyfer 2022-23.

**2. CYD-DESTUN 2022-23**

2.1 Yn sgil cyfnod y pandemig a gychwynnodd ym Mawrth 2020, dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym fel Adran ac ysgolion yn parhau i wynebu’r ‘normal’ newydd. Mae’r ‘normal’ newydd hwn wedi golygu parhau i gael plant a phobl ifanc yn ôl i’r ysgol, i gefnogi eu llesiant corfforol a meddyliol, ynghyd â llesiant staff, ymateb i heriau ymddygiad sy’n sgil-effaith y pandemig, gyda’r nod o allu darparu addysg o ansawdd i’r holl ddysgwyr.

2.2 Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi wynebu arolwg Estyn ac wedi derbyn adroddiad gadarnhaol ar ein Gwasanaethau Addysg yma yng Ngwynedd. Yr ydym yn falch o’r hyn sydd yn cael ei amlygu fel arfer dda ynddi, ond yn derbyn fod gwaith i'w wneud mewn agweddau eraill, megis presenoldeb a chynhwysiad.

**3. BLAENORIAETHAU AR GYFER 2023-24**

3.1 Rydym yn ymwybodol y bydd y dyfodol yn gynyddol heriol wrth i ni ymateb i'r her o gyni ariannol a lleihad yn y nifer o ddysgwyr yma yng Ngwynedd.

3.2 Dyma ragflas i chi o flaenoriaethau’r Adran ar gyfer y cyfnod sydd i ddod:

- Strategaeth Addysg
- Polisi Iaith Addysg
- Gwerthuso Darpariaeth y Gyfundrefn Drochi
- Llesiant Staff a Dysgwyr
- Cludiant Addysg

- Arweinyddiaeth Ysgolion
- Cynhwysiad
- Presenoldeb dysgwyr
- Datganoli Cyllideb Integreiddio

**4. ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r aelodau gyflwyno unrhyw sylwadau ar yr hyn y mae'r Adran Addysg wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a amlinellir yn yr Adroddiad Blynyddol yn Atodiad 1, ynghyd ag unrhyw sylwadau ar flaenoriaethau'r Adran ar gyfer y cyfnod nesaf.